# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Medi 2015

Amser: 08.30 - 08.53

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 14 Hydref 2015 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru – Tlodi ac Anghydraddoldeb (60 munud)

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

# 4 Rheolau Sefydlog

## 4.1 Maint Pwyllgorau

Yn wyneb sylwadau a wnaed gan y Rheolwyr Busnes yn y cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2015 ynghylch adolygu rhannau o'r Rheolau Sefydlog cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, bu Rheolwyr Busnes yn trafod papur a oedd yn nodi'r darpariaethau perthnasol a'r dewisiadau posibl mewn perthynas â maint pwyllgorau.

Gwahoddodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes i drafod y papur gyda'u grwpiau a dychwelyd at y mater yn y cyfarfod ar 20 Hydref 2015. Yn y cyfamser, gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth ddosbarthu pwyntiau penodol yn ymwneud â maint pwyllgorau i'r grwpiau plaid eu hystyried.